## Gweddi ar Grist y Gwaredwr

**Arweinydd:**
Enaid Crist, sancteiddia fi; Corff Crist, arbed fi; gwaed Crist, adnewydda fi; dŵr o ystlys Crist, glanha fi; dioddefaint Crist, cadarnha fi.

**Cynulleidfa:**
Anwylaf Grist, dy sanctaidd ben
dan ddrain fu drosof fi;
dy fendith tywallt ar fy mhen
im feddwl drosot ti.

**Arweinydd:**
O annwyl Arglwydd Iesu, gwrando arnaf ac ar y gynulleidfa hon a ddaeth ynghyd i oedfa'r ymgysegriad.
**Cynulleidfa:**
Anwylaf Grist, dy ddwylo gwyn
a hoeliwyd drosof fi,
dy fendith ar fy nwylo boed
i weithio drosot ti.

**Arweinydd:**
O fewn dy glwyfau cuddia fi rhag fy ofnau a'm pryderon, ac na foed i mi fyth golli golwg ar hanfod fy nghred. 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi.'

**Cynulleidfa:**
Anwylaf Grist, dy sanctaidd draed
a hoeliwyd drosof fi,
dy fendith tywallt ar fy nhraed
fel y dilynont di.

**Arweinydd:**
Rhag pwerau'r tywyllwch amddiffyn fi; ac yn oriau mwyaf dirdynnol y daith, cysura fi.
'Bûm yn wyneb pob gorchymyn,
bûm yn wyneb angau glas;
gwelais Iesu ar Galfaria
yn gwbl wedi cario'r maes.

Mewn cystuddiau 'rwyf yn dawel,
y fuddugoliaeth sydd o'm tu,
nid oes elyn wna i mi niwed;
mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd fry.

**Cynulleidfa:**
Anwylaf Grist, dy galon lân
drywanwyd drosof fi;
dy Ysbryd yn fy nghalon dod
fel byddwyf fyw i ti.

**Arweinydd:**
Yn enw'r hwn a'n dysgodd ni fel teulu i ddweud, 'Ein Tad ... Amen.'

**Cyhoeddiadau'r Gair**